# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 22 Ebrill 2015** |
| Amser: | **09.04 – 12.10** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2954**

## Cofnodion Cryno:
MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Christine Chapman AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Alun Davies AC**<br>**Jocelyn Davies AC**<br>**Janet Finch-Saunders AC**<br>**John Griffiths AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Rhodri Glyn Thomas AC** |
| Tystion: | **Lesley Griffiths AC, Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru**<br>**Simon White, Llywodraeth Cymru**<br>**Neil Buffin, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Sarah Beasley (Clerc)**<br>**Claire Morris (Ail Clerc)**<br>**Elizabeth Wilkinson (Ail Clerc)**<br>**Chloe Davies (Dirprwy Glerc)**<br>**Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)** |

Matthew Richards (Cynghorydd Cyfreithiol)
Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)
Jonathan Baxter (Ymchwilydd)
David Smith (Cynghorwr Arbenigol)

---

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod.]

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.
1.2 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mark Isherwood a Gwenda Thomas AC. Dirprwyodd John Griffiths AC ar ran Gwenda Thomas AC yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.
1.3 Gwnaeth Alun Davies AC a Janet Finch-Saunders AC ddatganiadau o fuddiant fel landlordiaid yn y sector rhentu preifat.

## 2 Bil Rhentu Cartrefi (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1 – y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, a'i swyddogion.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda:

- esboniad o sut mae'r diffiniad o 'ofalwr' yn y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) yn wahanol i'r diffiniad a ddefnyddir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'r rhesymau dros y gwahaniaethau hyn; a
- manylion am unrhyw dystiolaeth yn ymwneud â nifer yr honiadau troi allan er mwyn dial yng Nghymru.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor y papur.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod (trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2, ac ystyried yr adroddiad drafft ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru)).

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru): trafod y dystiolaeth a ddaeth i law yn sesiwn 1

5. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a'i swyddogion.

5.1 Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru): ymatebion i'r ymgynghoriad

## 6 Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru): ystyried yr adroddiad drafft

6. Trafododd y Pwyllgor yr Adroddiad Drafft.